***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 799 (Cy.79)

# GWASANAETHAU CYMORTH GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *16 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym* | |
| *At ddibenion rheoliad 6* | *6 Ebrill 2010* |
| *At bob diben arall* | *12 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

(**1**) 1948 p.29. *Gweler* adrannau 35(1) a 64(1) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i gael y diffiniadau o "the minister" a "prescribed" yn y drefn honno ac erthygl 2 o Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wasanaethau Cymdeithasol 1968 (O.S. 1968/1699) a drosglwyddodd holl swyddogaethau'r Gweinidog Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22(4) a (5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a throsglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.